

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

30 Medi 2015

Yn bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr D Ellis, Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd S Hudson, Cynghorydd M James, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd A Wilcox.

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am – 12.55pm]

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb wrth Mr A Archer, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd M Williams.

2. Datgelu buddiant

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y ceisiadau neu'r materion y cyfeirir atyn nhw isod:

Cais a Chyfeirnod	Aelod(au)/Swyddog(ion)	Gweithred
<i>Cofnod 6(b) isod</i> NP/15/0194 Tir oddi ar Feidr Eglwys, Trefdraeth	Mrs G Hayward Cynghorydd M James	Gadael y cyfarfod pan oedd y cais o dan drafodaeth
	Cynghorydd P Harries	Datgelodd fuddiant personol ond nid rhagdybiol ac arhosodd yn y cyfarfod gan gymryd rhan lawn
<i>Cofnod 6(c) isod</i> NP/15/0252 – Bro Helyg, Dinas	Cynghorydd R Kilmister	Gadael y cyfarfod pan oedd y cais o dan drafodaeth
<i>Cofnod 6(e) isod</i> NP/15/0390 – Swyddfa Bost, Stryd Hir, Trefdraeth	Cynghorydd P Harries	Gadael y cyfarfod pan oedd y cais o dan drafodaeth
<i>Cofnodion 6(h) a (i) isod</i> NP/15/0418 & 0418 –	Mrs G Hayward	Gadael y cyfarfod pan oedd y cais o



Cais a Chyfeirnod**Aelod(au)/Swyddog(i
on) Gweithred**Trewern, Felindre
Farchog

dan drafodaeth

Mynegodd y Cynghorydd Kilmister bryder ynglŷn â'r drefn oedd yn ei atal rhag cymryd rhan yn y Pwyllgor oherwydd ei fod wedi rhagbenderfynu'r mater. Yn ei swyddogaeth fel Cynghorydd Sir cyfyngwyd ef i siarad o dan y rheolau siarad cyhoeddus ac ni fedrai aros yn yr ystafell na chymryd rhan yn y drafodaeth.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 12^{fed} a'r 24^{ain} Awst 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD fod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 12^{fed} a'r 24^{ain} Awst 2015 yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

NODWYD.**4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud (*mae'r bartïon sydd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u ceisiadau perthnasol ac yn y drefn yr oedden nhw'n annerch y Pwyllgor*):

Rhif cyfeirnod	Cynnig	Siaradwr
NP/15/0031 <i>Cofnod 6(a) cyfeir</i>	Datblygiad preswyl – 27 unedau preswyl (amlinellol yn chwennych Mynediad a Gosod Allan) – Tir oddi ar Heol Trewarren, Llanisan-yn-Rhos	Mr Roger Anderson – Asiant
NP/15/0194 <i>Cofnod 6(b) cyfeir</i>	Datblygiad preswyl o 35 o anheddau (yn cynnwys 14 o unedau fforddiadwy) ynghyd â llecyn agored a manau mynediad newydd oddi ar Feidr Eglwys a Feidr Bentinck – Tir oddi ar Feidr Eglwys, Trefdraeth	Grŵp Gwrthwynebu Bentinck d/o Mrs Ros McGarry - Gwrthwynebydd
NP/15/0252	Amrywiad ar amod saith o	Cyng. Bob Kilmister



Rhif cyfeirnod	Cynnig	Siaradwr
<i>Cofnod 6(c) Cyfeir</i>	NP/55/95 i ganiatáu defnyddio atodiad fel uned breswyl – Bro Helyg, Dinas	- Cynghorydd Sir Mr Andrew Vaughan-Harries - Asiant
NP/15/0315 <i>Cofnod 6(d) Cyfeir</i>	Gosod treulydd anaerobig 500kw mewn cysylltiad â'r trefniant ffermio presennol – Coedwynog, Felindre Farchog	Mrs Davina Maguire - Gwrthwynebydd
NP/15/0406 <i>Cofnod 6(g) Cyfeir</i>	Ailosod clawdd, draenio dŵr wyneb a ffensio – Ffarm Carters Green, Angle	Cyngor Cymuned Angle - Gwrthwynebydd

5. **Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor o fewn y ddarpariaeth gynllunio ac yn nodi'r rheidrwydd i benderfynu yn unol â threfniadaeth statudol a'r Cynllun Datblygu Lleol oedd wedi'i fabwysiadu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol. Pwysleisiwyd bod rhaid anwybyddu ystyriaethau nad oedden nhw'n berthnasol wrth benderfynu materion cynllunio a nodwyd mai eithriad prin iawn oedd ystyriaeth o amgylchiadau personol fel ystyriaeth berthnasol. Tra bo'r Aelodau'n gweithredu'r Deddfau Cynllunio yn gyfreithlon ac mewn modd teg a diduedd fe fydden nhw hefyd yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Awdurdod o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fel yr oedd yn ymwneud â phenderfyniadau cynllunio. Roedd hefyd yn bwysig i'r Aelodau ddefnyddio'r cyfarwyddyd a gynhwysid yn y ddogfen Arfer Da o fewn Cynllunio o eiddo'r Awdurdod wrth iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau statudol.

NODWYD

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl y Pennaeth Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):



- (a) CYFEIRNOD: NP/15/0031/OUT
YMGEISYDD: Meistri Warren a David Marshall a Warren Davis
CYNNIG: Datblygiad preswyl – 27 unedau preswyl (amlinellol yn chwennych cymeradwyo Mynediad a Gosod Allan)
LLEOLIAD: Tir oddi ar Heol Trewarren, Llanisan-yn-Rhos, Hwlfordd

Cyflwynwyd y cais hwn gerbron y Pwyllgor am ei fod yn Ddatblygiad Mawr. Mae'n cynnig, yn amlinellol, codi 27 o anheddau ar y safle, sydd yn dir wedi'i neilltuo oddi fewn i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer datblygiad preswyl. Roedd y cais hwn yn gofyn am ganiatâd ar gyfer mynediad a gosod allan ac yna golwg, tirweddu a graddfa wedi'u cadw nôl ar gyfer eu hystyried yn y dyfodol.

Ystyriwyd bod yr egwyddor o ddatblygu'n dderbyniol. Roedd y gosod allan a ddarparwyd yn dangos mai'r bwriad oedd creu mynediad i'r safle o'r gogledd-orllewin gan osod ffordd darmac newydd gyda llecynnau naturiol wedi'u diogelu bob ochr. Y bwriad oedd gosod lled dwbl yn y fynedfa ac yn lleihau i un lon o ran lled wedyn gyda llefydd pasio. Roedd y ffordd fynedfa yn ymestyn trwy'r safle gyda'r posibilrwydd o gysylltu â'r safle datblygu cyfagos yn y man mwyaf dwyreiniol. Roedd y swyddogion o'r farn fod y mynediad arfaethedig, yn amodol ar ddarparu amodau yn ymwneud â'i ffurfio a chadw llecynnau natur, yn addas o ystyried mwynder gweledol oddi amgylch a hygyrchedd. Roedd y gosod allan yn darparu ar gyfer safle datblygu diddorol na fyddai wedi'i lethu gan wyneb priffordd ond gydag ychwanegiad o wyneb wedi'i rannu a phlannu trwyddi draw.

Nodwyd o ran y garthffosiaeth fod gwrthwynebiad cychwynnol a dderbyniwyd wrth Dŵr Cymru wedi'i ddatrys ac fe dynnwyd y gwrthwynebiad nôl ar ôl gosod amodau. Cafwyd gwrthwynebiad hefyd wrth Gyngor Cymuned Llanisan-yn-Rhos ar sail diogelwch ffordd ond cafwyd ardeall bod yr Awdurdod Priffyrdd yn cymeradwyo'r cynigion am eu bod o'r farn y byddai'n arafu trafndiaeth ar y safle.

Nid oedd y cais yn cynnwys tai fforddiadwy na chwaith ymrwymiadau cynllunio oherwydd anichonoldeb y cynllun a gyflwynwyd o ystyried gwerthoedd isel y farchnad a ddenid i'r ardal. Tra roedd hyn wedi'i brofi trwy Werthusiad y Tair Draig pryderai'r swyddogion, o ystyried gwelliant yn y farchnad economaidd, y dylid cytuno gyda'r ymgeisydd ar brawf dichonoldeb ar ddyddiad yn y dyfodol yn ystod cyfnod y caniatâd cynllunio i sicrhau pe bai dichonoldeb yn caniatáu yna dylid sicrhau darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy. Penderfynwyd y dylid rhoi caniatâd ar y sail y byddai dichonoldeb yn cael ei ail-ystyried yn ystod Materion Wrth Gefn a Chyfnodau Adeiladu trwy gytundeb Adran 106.



Yn ddibynnol ar hyn, ynghyd ag amodau cynllunio ar gyfer manylion pellach, roedd y swyddogion o'r farn fod y datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor, ac yn unol â materion a pholisïau eraill a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Canolbwyntiodd yr asiant, Roger Anderson, ar ei bryderon ynghylch yr argymhelliad o osod cytundeb A106. Dywedodd mai ei farn ef oedd, a chredai mai dyna oedd barn y Llywodraeth hefyd, mai hanfod pwrpas cytundeb o'r fath oedd gwneud datblygiad annerbyniol yn dderbyniol ac yn addas ar gyfer sicrhau caniatâd cynllunio ac nid esgus ar gyfer edrych tua'r dyfodol a dyfalu ynghylch gwerth ar y farchnad yr hyn sy'n gwbl deilwng o gael caniatâd cynllunio. Credai mai safbwynt y Llywodraeth oedd na ddylai datblygiad derbyniol fyth gael ei wrthod am na fyddai'r cais yn creu buddiannau ac roedd y swyddogion wedi nodi bod hwn yn ddatblygiad derbyniol. Cyfeiriodd Mr Anderson at benderfyniad diweddar yn Ninbych-y-pysgod lle'r oedd darparu cytundeb A106 cyffelyb wedi'i gytuno gan y Pwyllgor ond doedden nhw ddim yn credu bod hynny'n ddatrysiad derbyniol. Gofynnodd i'r Pwyllgor i benderfynu gwrthod y cais er mwyn i benderfyniad gael ei wneud mewn man arall.

Wrth ystyried pryderon Cyngor Cymuned Llanisan-yn-Rhos ynghylch y mynediad arfaethedig, a'i effaith ar y boblogaeth o ddyfrgwn lleol, gofynnodd un Aelod a allai fod yna reidrwydd i'r fynedfa i'r safle fod trwy'r fynedfa bresennol ar y safle gyferbyn a oedd mewn perchnogaeth ar wahân. Roedd wedi cael arddeall nad oedd y ddau dirfeddiannwr yn barod i gydweithio ac o'r herwydd byddai clawdd prydferth yn cael ei ddifrodi, ac roedd yna bryder mawr yn lleol y byddai'r defnydd o beiriannau trwm ar y safle yn gwneud i'r dyfrgwn ddiflannu er gwaethaf y mesurau lliniarol oedd wedi'u cynnig. Cynigiodd felly y dylai'r Pwyllgor ymweld â'r safle a chafodd hyn ei eilio.

Atebodd y Pennaeth Rheoli Datblygu nad oedd y ffaith fod y safle mwyaf mewn dwy berchnogaeth ddim yn ystyriaeth berthnasol ac nad oedd dewis ond delio â'r cais yn union fel yr oedd wedi'i gyflwyno. Tynnodd sylw at y ffaith fod Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ecolegydd wedi argymhell rhoi caniatâd amodol, ac er ei fod yn cydnabod y byddai yna effaith ar y dirwedd, byddai'r ffordd hefyd yn sicrhau y byddai'r llecyn yn fwy hygyrch i gerddwyr a fyddai'n gallu cerdded trwy'r safle ar eu ffordd i Lwybr yr Arfordir.

Wrth chwennych eglurhad ar nifer o faterion a godwyd, gofynnodd un Aelod a oedd yn bosib canfod os oedd dyfrgwn wedi'u heffeithio gan gynlluniau cyffelyb yn rhywle arall yn y wlad a'u bod wedi dychwelyd ar ôl i'r gwaith gael ei orffen; gofynnodd un arall i'r asiant p'un ai deddfwriaeth Llywodraeth Cymru neu'r DU oedd ganddo mewn golwg. Atebodd yr



asiant ei fod yn cyfeirio at Gylchlythyr Swyddfa Gymreig a'r llywodraeth ganolog ond ni chyfeiriodd at ddim yn benodol.

Wrth droi at fater Tai Fforddiadwy roedd rhai Aelodau'n pryderu y gallai'r datblygiad fynd yn ei flaen heb ddarparu unrhyw dai fforddiadwy. Mynegwyd cefnogaeth i'r argymhelliad am Gytundeb A106 gael ei ail-ystyried i fesur yr angen pan fyddai ceisiadau pellach yn cael eu hystyried, a galwodd un Aelod am adolygiad o bolisi tai fforddiadwy'r Awdurdod i sicrhau y byddai tai fforddiadwy yn parhau i gael eu darparu.

Yn olaf, wrth groesawu cais am gyfraniad tuag at barc chwarae'r pentref, gofynnodd un Aelod p'un a fyddai cuddio priodol yn cael ei ddarparu ar ffin y safle a'r ysgol er mwyn sicrhau diogelwch priodol. Atebodd y Swyddogion mai cais amlinellol oedd hwn ac y byddid yn delio â thirweddu pan fyddid wedi cyrraedd Materion Wrth Gefn maes o law.

PENDERFYNIAD: Gohirio penderfyniad a'r Pwyllgor i archwilio'r safle.

[Datgelodd Mrs G Hayward a'r Cynghorydd M James fuddiant yn y cais canlynol ac fe adawon nhw'r cyfarfod tra roedd o dan ystyriaeth. Cymerodd y Cynghorydd RM Lewis at y Gadair ar gyfer y mater]

- (b) CYFEIRNOD: NP/15/0194/FUL
YMGEISYDD: Mr J Roberts
CYNNIG: Datblygiad preswyl o 35 o anheddau (yn cynnwys 14 o unedau preswyl) ynghyd â llecyn agored a manau mynediad newydd oddi ar Feidr Eglwys a Feidr Bentinck
LLEOLIAD: Tir oddi ar Feidr Eglwys, Trefdraeth

Adroddwyd bod y cais hwn gerbron y Pwyllgor am ei fod yn gais o bwys yn ôl diffiniad telerau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu)(Cymru) 2012. Lleolwyd y safle i'r de-ddwyrain o brif anheddiad Trefdraeth ac roedd oddi fewn Ffin y Canol yn ôl manylion y Cynllun Datblygu Lleol, ac oddi fewn iddo hefyd roedd 20 o unedau tai wedi'u neilltuo.

Gofynnid am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer datblygiad preswyl yn cynnwys 35 o anheddau ar dir gyferbyn i Feidr Eglwys, Trefdraeth. Roedd y cynnig hefyd yn cynnwys tir agored a manau mynediad newydd oddi ar Feidr Eglwys a Feidr Bentinck. O'r 35 o anheddau, byddai 14 yn unedau fforddiadwy gyda mynediad atynt o Feidr Eglwys. Byddid yn mynd at ddwy annedd arall o Feidr Eglwys, a byddai'r anheddau eraill wedi'u gosod mewn dwy heol hosan y byddid yn eu cyrraedd o Feidr Bentinck.



Byddai ffiniau'r perci presennol yn cael eu cadw a'r datblygiad tai wedi'i osod rhyngddyn nhw.

Cafodd y cais ei hysbysebu fel datblygiad mawr o bwys yn ogystal â gwyriad oddi ar y Cynllun Datblygu Lleol, am fod y nifer o anheddau arfaethedig yn fwy na'r hyn a nodwyd yn y cynllun ei hun. Adroddwyd bod ymateb wedi dod i law wrth 72 o unigolion, 58 yn gwrthwynebu a 14 yn cefnogi, ac roedd crynodeb o'r materion a godwyd wedi'i ddarparu yn yr adroddiad.

Dyweddodd yr Aelodau eu bod nhw hefyd wedi derbyn gohebiaeth yn uniongyrchol, a pheth ohono'n mynegi pryder ynghylch adroddiad y swyddogion. Ymatebodd y swyddogion trwy ddweud o ran effaith y cynnydd mewn trafndiaeth a godwyd gan lawer o'r gwrthwynebwyr, roedd yr Awdurdod Priffyrdd, ac yn dilyn cyflwyno asesiad trafndiaeth Adran Trafndiaeth Llywodraeth Cymru, wedi argymhell rhoi caniatâd amodol. Fe ychwanegon nhw fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn cais i alw'r cais i mewn ond wedi cyngori nad oedd y materion o ddim mwy na phwysigrwydd lleol ac na fydden nhw'n galw'r cais i mewn.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r materion ac o'r ymateb a gafwyd gan ymgynghorwyr statudol a'r cyhoedd, roedd y swyddogion o'r farn fod y datblygiad yn addas ar gyfer y safle ac y byddai'n unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol. Byddai hefyd yn gyfle i ddarparu tai fforddiadwy yn Nhrefdraeth. Yr argymhelliad felly oedd cymeradwyo, yn amodol ar osod amodau a chytuno ar gytundeb Adran 106, i ddarparu cyflenwi tai fforddiadwy a goblygiadau cynllunio o ran Addysg, Trafndiaeth, Llecyn Agored a Llyfrgelloedd a Chyfleusterau Cymunedol.

Roedd yna un siaradwr ar y mater hwn, Mrs Ros McGarry ar ran Grŵp Gwrthwynebu Bentinck, a dechreuodd trwy ofyn i'r Pwyllgor i wrthod y cais. Cyfeiriodd at y ffaith fod y Cynllun Datblygu Lleol yn neilltuo 12, neu ar y mwyaf 20 o unedau (roedd hi'n fater o ddryswch fod y ddau ffigur ar yr un Cynllun). Roedd yr Arolygwr yn ei adroddiad wedi cymeradwyo cyfyngu'r nifer oherwydd cyfyngiadau trafndiaeth, cadwraeth a chloddiau hynafol, ynghyd ag un mynediad. Roedd y Grŵp hefyd o'r farn nad oedd y nifer o dai fforddiadwy yn ddigonol am fod y gyfradd wreiddiol o 70% wedi'i ostwng i 40%, a doedd hyn ddim wedi dilyn y canllawiau cywir am nad oedd asesiad gwelededd wedi'i wneud. Fyddai'r elfen tai fforddiadwy dim ond yn llenwi 1/5 o'r safle ac ni fyddai gweddill y tai yn fforddiadwy. Mynnai Mrs McGarry nad oedd angen ail dai newydd yn Nhrefdraeth ond yn hytrach cartrefi ar gyfer teuluoedd ifanc ac y dylai'r cynllun fod ar raddfa lai ac ar gyfer tai fforddiadwy er mwyn darparu cartrefi i bobl leol. Roedd y Grŵp wedi'i gynddeiriogi gan y cynnydd yn y nifer o unedau ar y safle a'r diffyg democratiaeth o ganlyniad o ystyried fod yr aelodau wedi cyfrannu at y Cynllun Datblygu Lleol ac wedi derbyn fod y safle ymhell o



fod yn addas ac wedi anwybyddu dyfarniad yr Arolygwr. Doedd yna chwaith ddim ymgynghoriad gyda chymdogion na'r grŵp amgylcheddol lleol. Roedd Grŵp Gwrthwynebu Bentinck wedi comisiynu cyngor Baryfreithiwr a doedd yna ddim cyfeiriad at hyn. Dywedodd Mrs McGarry mai dyletswydd yr Aelodau oedd ystyried yr holl wybodaeth ac roedd hi'n disgwyl iddyn nhw i wneud hynny ac i gydnabod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Wrth ymateb i'r dryswch ynghylch y nifer o anheddau oedd wedi'u neilltuo yn y CDLI, dywedodd y swyddog fod y cyfeiriad at 12 annedd yn atodiad y CDLI yn gamgymeriad, ac yn gynnig ar safle llai o faint yn gynharach yn y broses. Y nifer o unedau a neilltuwyd oedd 20. Cadarnhaodd hefyd fod y cyngor cyfreithiol ar gael ar ffeil y cais cynllunio ac wedi cael ei weld gan Gyfreithiwr yr Awdurdod.

Roedd un Aelod yn teimlo tra byddai'r datblygiad yn darparu 14 o unedau fforddiadwy, a oedd i'w groesawu, roedd yna lawer o gwestiynau eto i'w hateb. Roedd yn dyfalu pa gyfiawnhad oedd yna dros wyro oddi ar bolisi'r CDLI a ph'un a fyddai'r Arolygwr wedi derbyn neilltuad o 35 o anheddau ynghyd â mynediad oddi ar Feidr Bentinck. Am fod Trefdraeth yn Ganolfan Lleol roedd Polisi 3 yn berthnasol ac roedd yn dyfalu p'un a fyddai'r datblygiad yn cyfrannu at nodweddion arbennig yr ardal, gan gynnwys yr amgylchedd naturiol a'r tangnefedd, ac yn cynorthwyo at reoli trafndiaeth. O ran yr 21 o dai fyddai ar y farchnad roedd yn dyfalu ar gyfer pa farchnad roedden nhw wedi'u targedu gan nodi fod yna eisoes nifer uchel o dai gwyliau a phoblogaeth yn heneiddio oedd yn fater o bryder. Roedd colli'r clawdd hynafol ac effaith trafndiaeth ar feidroedd cul yr ardal yn faterion eraill oedd wedi'u codi, ac roedd yn amau hefyd p'un a oedd yr arolwg trafndiaeth a wnaed pedair blynedd nôl yn gynrychioladol o'r dref yn ystod misoedd prysur yr haf. Yn y pen draw roedd yn amau a oedd y pris i'r dref o ganiatáu'r unedau fforddiadwy ychwanegol yn un a oedd yn werth talu amdano.

Wrth ddiolch i'r swyddogion am y cyfle i ymweld â'r safle esboniodd Aelod arall ei fod yn teimlo fod y cynnig yn cynrychioli gorddatblygiad a fyddai'n fwy gweladwy yn y gaeaf pan na fyddai dail ar y coed. Roedd ganddo hefyd bryderon ynghylch y gosod allan a oedd yn nodweddiadol o ystâd o dai, heb fawr o debygrwydd i'r patrwm adeiladu yn Nhrefdraeth o gyfres o dai teras. Roedd yr Aelod yn siomedig nad oedd Cadw wedi ystyried effaith y datblygiad ar yr Eglwys ac nad oedd yna fawr o ystyriaeth i'r hyn fyddai'n weladwy o'r tirlun ehangach. Roedd ganddo hefyd bryder ynghylch cadw'r cynefin a'r tyfiant pan fyddai preswylwyr yn yr anheddau yn ogystal ag effaith trafndiaeth ychwanegol ar y feidroedd cul. Teimlai fod y datblygiad yn groes i bolisïau 8 a 30 o'r CDLI ac na fedrai ei gefnogi.



Cytunodd Aelod arall fod cynnydd o 70% yn y nifer o unedau yn gyfystyr â gorddatblygu a dywedodd nad oedd o'r farn y byddai'r ffyrdd yn medru dygymod. Tra cytunai fod angen darparu tai fforddiadwy yn y dref nid oedd o'r farn y dylid gwneud hynny ar sail y cynllun hwn.

Roedd Aelodau eraill, fodd bynnag, yn gweld y llecyn yn addas ar gyfer ehangu Trefdraeth ac fe gafodd yr argymhelliad o gymeradwyaeth ei gynnis a'i eilio. Hyd yn oed pe bai 40% o'r tai ar gyfer y farchnad agored yn dai gwyliau byddai'n dal i fod 25 o'r 35 o anheddau yn breswylwyr llawn amser a fyddai'n cyfrannu'n helaeth at gefnogi hyfywedd Trefdraeth. Fodd bynnag, roedd peth pryder fod elfen tai fforddiadwy'r safle wedi'i canolbwyntio mewn darn bychan o'r safle a bod y tai ar gyfer y farchnad agored mewn dwysedd tipyn is.

Rhodddwyd y cynnis o gymeradwyo'r cais, gan ei fod wedi'i eilio, ei roi i bleidlais wedyn, ond ni chafodd ei gario. Cafodd cynnis yn nodi bod yr Aelodau am wrthod y cais ei gynnis a'i eilio wedyn. Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd wedyn y byddai penderfyniad o'r fath yn golygu cyflwyno cyfnod 'oedi' yr Awdurdod a fyddai'n golygu efallai y byddai'n rhaid ailystyried y cais yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor pan fyddai pleidlais wedi'i chofrestru'n cael ei chymryd. Doedd y swyddogion ddim yn anghytuno â'r dehongliad hwn. Cyn cymryd pleidlais rhodddwyd y rhesymau cynllunio canlynol dros wrthod gan y Pwyllgor: y cais yn groes i bolisiau 3, 8, 30 a 53 y CDLI - difrodi nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a thref Trefdraeth gan gynnwys trafniadaeth a mwynder ac yn groes i'r dwysedd a nodwyd yn y CDLI ynghyd ag amrywiad anerbyniol o ran dwysedd mewn rhannau gwahanol o'r safle. Cytunodd y swyddogion fod y rhain yn wrthwynebiadau cynllunio dilys.

Cafodd y cynnis ei roi i bleidlais ac fe'i carwyd.

PENDERFYNIAD: Aelodau yn gwrthod y cais am ei fod yn groes i bolisiau 3,8,30 a 53 o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Am fod y penderfyniad yn groes i argymhelliad y swyddogion ac yn gyfystyr â gwriad arwyddocaol oddi ar y Cynllun Datblygu Lleol roedd yn rhaid cyflwyno trefn 'oedi' yr Awdurdod ac o'r herwydd byddai'n cael ei ail-ystyried yng nghyfarfod nesaf posib y Pwyllgor.

[Datgelodd y Cynghorydd R Kilmister fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y cyfarfod tra roedd o dan ystyriaeth ond roedd wedi rhoi gwybod rhagblaen o dan drefniant Siarad Cyhoeddus yr Awdurdod ei fod am siarad ac fe'i galwyd nôl i'r ystafell i annerch gan adael yn union wedi hynny.]



- (c) CYFEIRNOD: NP/15/0252/S73
YMGEISYDD: Mr a Mrs J ac S Ferguson
CYNNIG: Amrywiad o amod 7 o NP/55/95 i ganiatáu defnydd o atodiad fel uned breswyl
LLEOLIAD: Bro-Helyg, Dinas, Trefdraeth

Adroddwyd bod safle'r cais yn cynnwys annedd, Glan-Helyg, a'i atodiad Bro-Helyg, ill dwy wedi'u lleoli o fewn yr un uned gynllunio. Gofynnid am ganiatâd cynllunio i waredu amod cynllunio saith ar NP/055/95 i ganiatáu defnyddio Bro-Helyg fel annedd breswyl annibynnol ar wahân gyda'i mwynder a'i llefydd parcio ei hun. Byddai'r amrywiadau a gynigid yn cynnwys gwaredu ystafell haul/tŷ gwydr oedd ynghlwm wrth y garej bresennol i ddarparu llecyn mwynder ychwanegol i wasanaethu Bro-Helyg ynghyd â mynediad newydd i gerbydau, llecyn parcio ar gyfer dau gerbyd a man troi ar gyfer Glan-Helyg. Roedd y cais mewn gwirionedd yn gofyn am wahanu'r atodiad oddi wrth yr uned breswyl a rhoi caniatâd cynllunio i greu annedd newydd.

Roedd y cynllun arfaethedig, mewn termau ymarferol, ym marn y swyddogion yn meddu ar gyfradd, maint, ffurf a dyluniad manwl a oedd yn dderbyniol. Byddai'r cynnig yn darparu parcio digonol yn gysylltiedig â Glan-Helyg a'r parcio presennol yn cael ei gadw ar gyfer Bro-Helyg. Byddai'r dyluniad yn diogelu mwynder a phreifatrwydd cymdogion yn ogystal â diogelu nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wrth edrych o'r tirlun agos ac ehangach. Fodd bynnag, doedd y cais ddim yn cynnwys unrhyw gyfraniad tai fforddiadwy fel roedd yn ofynnol o dan Bolisi 45 o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllaw Cynllunio Ychwanegol. Felly roedd y cais fel yr oedd yn annerbyniol, yn groes i bolisi o ystyried y cynllun datblygu a fabwysiadwyd ar gyfer yr ardal a phob ystyriaeth berthnasol. Argymhellwyd felly ei wrthod.

Yn y cyfarfod cyfeiriwyd at gamgymeriad yn y frawddeg gyntaf o'r paragraff olaf ar dudalen 50 o'r adroddiad a ddylai ddarllen fel a ganlyn 'defnydd parhaus na fu unrhyw amharu arno'. Cynghorodd y swyddogion hefyd, o ran taliad y swm cymudol, roedd cyfle wedi'i roi i'r ymgeiswyr i dalu pan fyddai Glan-Helyg wedi'i werthu er mwyn cynorthwyo gyda'r llif arian.

Roedd y cais yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor ar gais y Cynghorydd R Kilmister, a oedd hefyd y cyntaf o ddau siaradwr ar y mater. Esboniodd ei fod wedi sefyll ac wedi ennill etholiad i fod yn aelod o'r Cyngor Sir ar y sail y byddai'n cynrychioli unigolion na fydden nhw'n medru ymladd ar eu rhan eu hunain. Roedd hwn yn enghraifft o hynny ac roedd gan ei etholwyr lawer i'w golli. Roedden nhw'n byw yn yr eiddo a oedd yn atodiad ond roedd y busnes a fu'n gysylltiedig ag ef nawr wedi dirwyn i ben. Doedd y busnes ddim yn ddichonadwy mwyach ond nid oedd yn bosib gwerthu'r



eiddo o dan y trefniadau presennol. Felly roedd o'r farn ei bod y tu hwnt i reswm i ddisgwyl i Mr a Mrs Ferguson dalu £27,500 er mwyn parhau i fyw mewn eiddo lle'r oedden nhw wedi byw am yr 20 mlynedd diwethaf – roedd hwn yn cynrychioli yn y man lleiaf 10% o werth yr eiddo. Roedd o'r farn fod agwedd ôl-weithredol y Polisi ar yr uned yn annheg a gofynnodd i'r Aelodau i osod eu hunain yn esgidiau ei etholwyr a hefyd i ystyried sut y byddai aelod cyffredin o'r cyhoedd yn edrych ar hyn. Gofynnodd, felly, i'r Pwyllgor i wneud yr hyn a oedd yn deg ac yn rhesymol a chymeradwyo'r cais.

Yr ail siaradwr oedd yr asiant, Mr Andrew Vaughan-Harries. Wrth ganolbwyntio ar hanes cynllunio'r safle esboniodd fod Glan-Helyg wedi bod yn gartref nyrsio ar gyfer pobl ag anfanteision meddyliol a oedd wedi ehangu, gan olygu fod angen atodiad dwy ystafell wely ar y perchnogion. Doedd yna'r un drws yn cysylltu'r ddwy annedd ac roedden nhw'n cael eu trethi ar wahân. Roedd ei gleientiaid wedi byw yno ers yr ugain mlynedd diwethaf ac roedden nhw nawr y tu hwnt i oed ymddeol a'r busnes wedi peidio oherwydd y gofynion cyfreithiol modern. Ar hyn o bryd roedd y ddwy uned yn rhannu'r unig fynediad nad oedd yn bodloni safonau'r ffordd fawr. Roedd y cais felly'n sicrhau gwelliannau trwy ddarparu mynediad newydd ac ail fan parcio ac roedd yr Asiantaeth Priffyrdd wedi croesawu hynny. Roedd ei gleientiaid yn ei hystyried yn hynod annheg bai'n nhw'n gorfod talu £27,650 cyn rhyddhau unrhyw ganiatâd. Terfynodd Mr Vaughan-Harries trwy ddweud bod y Canllaw Cynllunio Ychwanegol ar dai fforddiadwy yn dweud "y byddai'r Awdurdod yn ystyried priodoldeb chwennyh cyfraniad ariannol tuag at ddarparu tai fforddiadwy" - gwahoddod yr Aelodau i ystyried p'un a oedd hyn yn briodol neu beidio. Gofynnodd i'r Aelodau i gymeradwyo'r cais ond i beidio â gofyn am gyfraniad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod a ofynnodd a oedd cyfraniad tuag at dai fforddiadwy wedi'i gynnig, atebodd y swyddogion nad oedd yna gynnig ar y bwrdd ar hyn o bryd a doedd yna ddim asesiad o ddichonolrwydd y cynllun wedi'i wneud. Os oedd y rhain yn rhesymau teilwng dros wyro oddi ar bolisi'r Awdurdod, dylid eu hystyried, ond yn yr achos hwn doedd yr ymgeiswyr ddim yn hoff o'r egwyddor a doedden nhw ddim wedi cynnig talu cyfraniad. Pan roddwyd caniatâd i'r atodiad yn 1995, nid oedd y polisi presennol ynghylch tai fforddiadwy mewn grym, ond, fodd bynnag, fyddai annedd ar wahân ar yr un safle ddim wedi cael caniatâd. Doedd y swyddogion ddim yn teimlo fod gweithredu'r polisi'n afresymol.

Mynegodd yr Aelodau beth cydymdeimlad gyda'r ymgeiswyr ac ystyriwyd nad oedd eu sefyllfa yn un a ragwelwyd pan gafodd y polisi tai fforddiadwy ei fabwysiadu. Fe ofynnnon nhw ynghylch Tystysgrif Cyfreithlondeb a ph'un a oedd yr Awdurdod yn medru bod yn hyblyg trwy ostwng y swm yn yr achos hwn i de minimus. Atebodd y swyddogion fod



cais am Dystysgrif Cyfreithlondeb yn wahanol i gais cynllunio ac yn dibynnu ar p'un ai oedd rheolaeth cynllunio wedi'i dorri am gyfnod o fwy na deng mlynedd. Fodd bynnag, doedd cais am Dystysgrif ddim wedi dod i law a rhybuddiodd y Cyfreithiwr y byddai'n beryglus i gymryd yn ganiataol y byddai'n cael ei roi heb fynd trwy'r broses honno. O ran hyblygrwydd y polisi presennol esboniodd y Cyfarwyddwr bod yna hyblygrwydd o fewn y polisi ond roedd rhaid seilio hwn ar dystiolaeth, ac yn y cais presennol doedd dim tystiolaeth wedi'i gyflwyno y gallai'r Awdurdod ei ystyried.

Cafodd cynnig i wrthod y cais ei gynnig a'i eilio ac yna gwelliant yn nodi fod yr Aelodau'n barod i gymeradwyo'r cais ond heb gymudo swm o arian. Nododd y Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr, am fod y cynnig yn groes i gyngor y swyddogion, gallai trefn 'oedi' yr Awdurdod gael ei gyflwyno o bosib, a'r mater wedyn yn cael ei drafod eto mewn Pwyllgor yn y dyfodol ar gyfer penderfyniad terfynol pan fyddai pleidlais wedi'i chofrestru'n cael ei chymryd. Nid oedd y swyddogion yn anghytuno â'r dehongliad hwn. Rhoddwyd y gwelliant i bleidlais ac fe'i carwyd.

PENDERFYNIAD: Aelodau yn cymeradwyo'r cais heb fynnu swm o arian wedi'i gymudo oherwydd materion yn ymwneud â thegwch, defnydd hanesyddol o'r eiddo, amgylchiadau personol yr ymgeiswyr a'r fantais cynllunio o ran gwelliannau priffordd.

Am fod y penderfyniad yn groes i argymhelliad y swyddogion ac yn gyfystyr â gwriad arwyddocaol oddi ar y Cynllun Datblygu Lleol roedd rhaid cyflwyno trefn 'oedi' yr Awdurdod a byddid yn ei ail-ystyried yn y cyfarfod cyntaf posib nesaf o'r Pwyllgor.

[Cyflwynodd y Cynghorydd S Hudson ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais canlynol]

- (d) CYFEIRNOD: NP/15/0315/FUL
YMGEISYDD: Mr M Carey
CYNNIG: Gosod treulydd anaerobig 500kw yn gysylltiedig â'r gwaith ffermio presennol
LLEOLIAD: Coedwynog, Felindre Farchog, Crymych

Adroddwyd bod y cynnig hwn yn gais cyflawn yn gofyn am osod treulydd anaerobig gyda 500kw o allu cynhyrchu a fyddai'n cael ei gloddio i mewn i'r dirwedd. Roedd y mewnbwn yn cynnwys 12,000 tunnell o wastraff slyri ac 8,000 tunnell o wastraff solid. Roedd y slyri yn gynnyrch naturiol y fuches odro (550 o dda a'u dilynwyd) lle'r oedd y solids yn ganlyniad cymysgedd o wastraff silwair, gwellt ar lawr a chnydau gwyrdd o'r fenter ffermio bresennol.



Byddai'r cynnig i osod treulydd anaerobig 500Kw yn lleihau llygredd a'r arogleuon a gysylltir â sgwaru slyri yn y fro oddi amgylch, tra byddai'n creu cyfanswm arwyddocaol o ynni adnewyddadwy, ac yn ychwanegol roedd yn ffurf o arallgyfeirio amaethyddol. Ystyriai'r swyddogion fod y cais yn unol â gofynion polisiau lleol a chenedlaethol datblygu cynaliadwy a'r argymhelliad oedd cymeradwyo gydag amodau.

Cafodd Barn Sgrinio o dan Reoliadau 1999 Cynllunio Gwlad a Thref (Aseiad Effaith Amgylcheddol)(Cymru a Lloegr) ei weini ar 18 Awst yn nodi nad oedd yr awdurdod lleol yn ystyried y cais yn ddatblygiad AEA.

Yr annedd agosaf heb gyswllt i'r safle oedd bwthyn bychan traddodiadol, Rhydoferiad, yn union i'r dwyrain o ffin y safle ac o ble y daeth nifer o wrthwynebiadau. Roedd yr annedd wedi'i lleoli oddeutu 278m oddi wrth elfen CHP y peiriant ar ochr orllewinol y safle.

Roedd yna un siaradwr ar y mater hwn, Mrs Davina McGuire, gwrthwynebydd. Esboniodd fod eu gwrthwynebiadau yn seiliedig ar faint a chyfradd y gosodiad a'i agoswydd at eu heiddo, Rhydoferiad. Tra deallai'r angen i arallgyfeirio a chreu ynni adnewyddadwy doedd hi ddim yn deall pam fod angen peiriant o'r maint hwn am fod enghreifftiau mewn adolygiad a wnaed gan y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol yn gymharol lai o faint o ystyried maint y ffarm. Canlyniad peiriant mwy o faint oedd yr angen am lecyn mwy o faint i'w osod ac yn yr achos hwn byddai angen cloddio 62m³ o dir a allai amharu ar y cyflenwad dŵr yn ogystal â chryn dipyn o amharu pan fyddid yn gwneud y gwaith, yn arbennig os byddai'r pridd yn cael ei gludo o'r safle ar hyd feidroedd cul. Byddai ei heiddo hefyd yn dioddef o golli mwynder pan fyddai'r peiriant mewn defnydd oherwydd y sŵn, llwch, arogl ac effaith weledol andwyol. Byddai'r eiddo hefyd yn agos at waith a allai fod yn beryglus am na ddylai fod o fewn 200m i'r un tŷ, ac ofnai y byddai'r fflam methane yn ymwithiol. O ganlyniad i siarad â pherchnogion eiddo eraill mewn sefyllfa debyg ar draws y wlad roedd yn rhagweld colled enfawr o fwynder.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod mai hwn, yn ôl pob tebyg, oedd y cyntaf o nifer o geisiadau am dreulyddion anaerobig ac roedd rhai o'r farn mai dyma'r ffordd orau ymlaen, yn ôl pob tebyg, o ystyried y problemau wrth i nentydd sy'n bwydo afonydd gael eu llygru gan wastraff amaethyddol. Cynigiwyd cymeradwyo'r cais felly ac fe eiliwyd.

Roedd rhai Aelodau'n amau lleoli'r peiriant oddi fewn i'r ffarm ond atebodd y swyddogion mai'r farn oedd mai dyma'r datrysiad gorau gan ei fod wedi'i osod nepell o'r adeiladau sydd yno eisoes. Byddai'r fflam y cyfeiriwyd ati gan y gwrthwynebydd wedi'i chuddio. Roedd yr Aelodau yn ystyried y byddai golygfa'r cymdogion o Garningli yn y pellter yn dal yno a'r gobaith



oedd y byddai'r tirweddu a fwriadwyd ar y safle yn cynorthwyo i ddiogelu eu mwynder.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau, cynllun tirweddu, lefelau sŵn, draenio dŵr wyneb, peidio â chymryd slyri na deunydd gwastraff oddi ar y daliad tir, diogelu coed, datganiad dull o waith cloddio, cynllun rheoli atal llygredd, diogelwch cyflenwad dŵr preifat ar gyfer Rhydoferiad, a chadw llygad ar faterion archeolegol. Byddai Gwybodlen Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cael ei gynnwys.

[Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y cyfarfod pan oedd o dan ystyriaeth]

- (e) CYFEIRNOD: NP/15/0390/FUL
YMGEISYDD: Mrs R Harries
CYNNIG: Gosod sied bren newydd yn lle'r un wantan ei chyflwr bresennol
LLEOLIAD: Swyddfa Bost, Stryd Hir, Trefdraeth

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor i'w benderfynu am fod yr ymgeisydd yn Aelod o'r Awdurdod.

Yr unig reswm pam fod angen caniatâd ar y sied ardd/adeilad haf hwn oedd am ei bod wedi'i lleoli oddi fewn gardd pâr o unedau ar rent ac uned breswyl uwchben ac am nad oedd yna hawliau datblygu wedi'u caniatáu. Ystyriwyd bod y datblygiad arfaethedig wedi'i lleoli'n briodol, ac o faint, ffurf a dyluniad a oedd yn gyson â chymeriad pensaernïol a golwg weledol y llecyn gardd a'r anheddau oddi amgylch. Ni fyddai'r gwaith arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar fwynder na phreifatrwydd cymdogion nac ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Felly, ystyriwyd bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a gellid ei gefnogi gydag amodau priodol.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad ac yn unol â'r cynlluniau wedi'u cymeradwyo.



- (f) CYFEIRNOD: NP/15/0401/FUL
YMGEISYDD: Mr A Majcher
CYNNIG: Darparu 11 safle carafanau pob tywydd yn cynnwys gwasanaethau, lledu 59 o safleoedd carafanau pob tywydd, ailwampio adeilad derbyn oddi fewn i'r ôl-troed presennol, dymchwel a gosod bloc toiledau uwch yn y lleoliad presennol, gosod tanc storio dŵr symudol a phympiau cyfnerthu
LLEOLIAD: Safle Clwb Carafanau Freshwater East, Freshwater East, Penfro

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor oherwydd mai Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd y perchennog tir.

Roedd safle'r cais y tu fas i unrhyw Ganol neu Ganol Gwledig ac felly roedd yng nghefn gwlad o ran anghenion polisi. Gofynnid am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer gwneud gwaith oddi fewn i'r safle carafanau presennol i ddarparu 11 o leiniau pob tywydd gyda gwasanaethau, i ledu 59 o leiniau pob tywydd ar gyfer carafanau, ailwampio'r adeilad derbyn presennol, gosod tanc storio dŵr symudol a phympiau cyfnerthu, a dymchwel a chodi bloc toiledau yn lle'r bloc presennol.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r materion ac o'r ymatebion a gafwyd gan ymgynghorwyr statudol a'r cyhoedd, penderfynodd y swyddogion fod y datblygiad yn briodol ar gyfer y lleoliad, ac y byddai'n unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol. Yr argymhelliad felly oedd dirprwyo.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod y wybodaeth ychwanegol roedd yr ecolegydd ei angen mewn perthynas â phresenoldeb posib ystlumod wedi dod i law ers ysgrifennu'r adroddiad, a doedd dim gwrthwynebiad ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru pe bai amodau lliniaru priodol yn cael eu cynnwys.

Gofynnodd un Aelod p'un a fyddai amodau'n cael eu gosod yn ymwneud â'r perygl o lifogydd o ystyried fod y safle'n rhannol oddi fewn i Barth Llifogydd 2. Atebodd y swyddog trwy ddweud gan fod y datblygiad eisoes mewn bodolaeth gellid cynnwys gwybodlen ond esboniodd ymhellach fod yr wynebaw arfaethedig yn fwy athraidd ac felly ni ddylai llifogydd fod yn fawr o bryder.

PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio/Pennaeth Rheoli Datblygiad i roi caniatâd cynllunio ar yr amod na cheid gwrthwynebiadau pellach i'r mesurau lliniaru ystlumod ac yn amodol ar amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, tirweddu ac ecoleg.



- (g) CYFEIRNOD: NP/15/0406/FUL
YMGEISYDD: Mrs M Hanlly
CYNNIG: Ailosod clawdd, draenio dŵr wyneb a ffensio
LLEOLIAD: Ffarm Carters Green, Angle, Penfro

Roedd y cais yn gofyn am ganiatâd rhannol ôl-weithredol i godi clawdd Sir Benfro, ffens cadw gwartheg draw a draenio dŵr wyneb ar hyd ffin tu blaen Ffarm Carters Green lle mae'n ymuno â'r briffordd. Roedd y clawdd mewn dau ran, yn mesur tua 1.5m mewn lled a 1.2m mewn uchder yn ogystal â phlannu llwyni brodorol ar ei ben. Roedd yr elfen draenio dŵr yn cynnwys ffedog concriid a chefnfur yn bwydo dŵr i rigol ddŵr oedd eisoes o dan y ffordd ac yn ei waredu ar dir amaethyddol ar ochr bellaf y ffordd fawr.

Adroddwyd bod clawdd ynghyd â ffens atal creaduriaid wedi'i gymeradwyo cynt fel rhan o ganiatâd cynllunio ehangach yn 2010 (NP/10/424). Er na chafodd cais ei gyflwyno fe ddechreuwyd ar y gwaith ar gynllun diwygiedig oedd yn cael ei godi oddi fewn ymlediad gwelededd ar ochr ddeheuol y ffordd ac o ganlyniad fe gafodd rhigol ddŵr yn y briffordd a phiben ochrol eu cau dros dro. O ganlyniad i ymwneud Adran Gorfodaeth Cynllunio'r Awdurdod ac Adran Priffyrdd Cyngor Sir Penfro cafodd y cais cyfredol ei gyflwyno.

Roedd swyddogion o'r farn fod y cynnig presennol yn cydymffurfio â'r polisiau perthnasol o ran mwynder gweledol, draenio dŵr wyneb a diogelwch priffordd ac felly argymhellwyd ei gymeradwyo gydag amodau. Roedd Cyngor Cymuned Angle, fodd bynnag, wedi gwrthwynebu'r cynllun ar dir diogelwch priffyrdd gan honni fod y cynlluniau'n gamarweiniol ac roedd y cais felly wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor.

Siaradodd Theresa Allen ar ran Cyngor Cymuned Angle. Esboniodd nad oedden nhw wedi gwrthwynebu'r cynllun gwreiddiol am eu bod o'r farn ei fod yn gyfaddawd teg; ond roedden nhw'n credu fod y cynnigion presennol yn difrodi'r dirwedd. Roedd y llecyn wedi bod yn agored yn y gorffennol gan wneud y darn hwnnw o'r feidr gul yn ddiogelach i drafnidiaeth am nad oedd yna amharu ar welededd. Pryderai'r Cyngor Cymuned y byddai'r plannu a oedd yn ffurfio rhan o'r cais presennol yn achosi trafferthion cynnal a chadw pe bai'r clawdd yn cael ei adael i ordyfu a hynny'n amharu ar welededd o amgylch y tro i ddefnyddwyr. Roedden nhw hefyd yn hawlio fod y cynlluniau yn gamarweiniol am fod y datblygiad wedi'i ddisgrifio fel 'adliniad' o'r clawdd yn hytrach na chyfeirio at y ffaith eu bod wedi'u gosod yn anghywir a'r clawdd a'r ffens yn cael eu disgrifio fel rhai gwreiddiol. Roedden nhw'n gwrthwynebu'r cynnigion presennol ac yn mynnu y dylid gorfodi'r caniatâd gwreiddiol.

Ail-adroddodd y swyddog fod yr Awdurdod Priffyrdd wedi cyd-weithio



gyda'r ymgeisydd a'u bod yn fodlon â'r cynigion, ac fe gafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Pwyllgor. Gofynnodd y Pennaeth Rheoli Datblygu am ddiwygio amod dau i'w gwneud yn ofynnol i'r datblygiad gael ei gwblhau yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad y gwaith, cytuno ar fanylion y clawdd a chodi'n unol â'r cynlluniau.

[Datgelodd Mrs G Hayward fuddiant yn y ddau gais canlynol a gadawodd y cyfarfod pan oedden nhw o dan drafodaeth. Cymerodd y Cyngorydd R M Lewis y gadair ar gyfer yr eitem hon.]

- (h) CYFEIRNOD: NP/15/0417/FUL
YMGEISYDD: Mr Watkins
CYNNIG: Adeiladau cadw gwartheg, lagŵn slyri, clampiau silwair a chlos agored (rhannol ôl-weithredol)
LLEOLIAD: Ffarm Trewern, Felindre Farchog, Crymych
- (i) CYFEIRNOD: NP/15/0418/FUL
YMGEISYDD: Mr Watkins
CYNNIG: Gwaith treuliant anaerobig 0.5mw
LLEOLIAD: Ffarm Trewern, Felindre Farchog, Crymych

Adroddwyd yng ngoleuni natur sensitif safle'r ceisiadau hyn, y nifer o faterion y tynnwyd sylw atyn nhw o ran y cynigion a natur yr ymateb cyhoeddus i'r datblygiad arfaethedig a ddaeth i law wedi'r ymgynghoriad, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor dalu ymweliad safle cyn rhoi ystyriaeth lawn i'r ceisiadau cynllunio yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Cynllunio yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD: Aelodau i daro heibio'r safle cyn rhoi ystyriaeth lawn i'r ceisiadau mewn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

7. Apeliadau

Adroddodd y Pennaeth Rheoli Datblygu ynghylch tri o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru a manylodd ynghylch y datblygiadau diweddaraf o ran y broses apêl ymhob achos. Ychwanegodd ers ysgrifennu'r adroddiad roedd yna apêl arall wedi'i gofrestru'n ymwneud â safle sipsiwn nad oedd wedi'i awdurdodi.

NODWYD.

8. Gorchymyn Diogelu Coed – GDC128: Parc-y-marriage, Mynydd Trefdraeth



Adroddwyd bod y Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) yn ymwneud â thair llarwydden yr oedd y swyddogion o'r farn fod ganddyn nhw ffurf anarferol o isel o dyfu ac o'r herwydd yn darparu nodwedd ddiddorol o'r hawl tramwy gyferbyn ond, ar yr un pryd, yn lleihau eu hamlygrwydd yn y tirlun ehangach fel nad oedd y grŵp yn tynnu oddi ar dirlun y Preselau. Cafodd GDC ei gyflwyno, felly, ar 28^{ain} Ebrill 2015 ac ni chafwyd gwrthwynebiad. Argymhellwyd y dylid cadarnhau'r GDC.

PENDERFYNWYD cadarnhau GDC128, Parc-y-marriage, Mynydd Trefdraeth.

